Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**

# Perthynas Cymru ag Ewrop a'r byd yn y dyfodol

Chwefror 2019



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddMADY**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddMADY@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddMADY**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**

# Perthynas Cymru ag Ewrop a'r byd yn y dyfodol

Chwefror 2019

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
[www.cynulliad.cymru/SeneddMADY](www.cynulliad.cymru/SeneddMADY)

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**David Rees AC**
Llafur Cymru
Aberavon

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Michelle Brown AC**
UKIP Cymru
Gogledd Cymru



**Alun Davies AC**
Llafur Cymru
Blaenau Gwent



**Huw Irranca-Davies AC**
Llafur Cymru
Ogwr



**Delyth Jewell AC**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**David Melding AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



**Mark Reckless AC**
Grŵp Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Joyce Watson AC**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Suzy Davies AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



**Vikki Howells AC**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Jane Hutt AC**
Llafur Cymru
Bro Morgannwg



**David Melding AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



**Steffan Lewis AC**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Jenny Rathbone AC**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Jack Sargeant AC**
Llafur Cymru
Alun a Glannau Dyfrdwy

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... **5**

**Argymhellion** ..... **7**

**1. Cyflwyniad** ..... **12**

1. 1. Y cefndir ..... 12

1. 2. Yr ymchwiliad Cymru yn y Byd ..... 12

1. 3. Casglu tystiolaeth ..... 13

1. 4. Y Cytundeb Ymadael a’r Datganiad Gwleidyddol ..... 13

**2. Strategaeth cysylltiadau rhyngwladol newydd i Gymru** ..... **18**

2. 1. Dull strategol ..... 18

2. 2. Ein barn ni ..... 21

**3. Rôl Cymru yn Ewrop ar ôl Brexit** ..... **26**

3. 1. Y berthynas â Senedd Ewrop ..... 27

3. 2. Ein barn ni ..... 28

3. 3. Pwyllgor y Rhanbarthau ..... 28

3. 4. Ein barn ni ..... 30

3. 5. Rhwydweithiau anffurfiol ..... 30

3. 6. Ein barn ni ..... 31

3. 7. Presenoldeb Llywodraeth Cymru ym Mrwsel ..... 32

3. 8. Ein barn ni ..... 33

3. 9. Rhaglenni’r UE ..... 33

3. 10. Ein barn ni ..... 35

3. 11. Y Gynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol (CALRE) ..... 36

3. 12. Ein barn ni ..... 36

3. 13. Perthnasau dwyochrog a memoranda cyd-ddealltwriaeth ..... 37

3. 14. Ein barn ni ..... 38

**4. Cymru a’r Cymry dramor** ..... **42**

4. 1. Y Cymry alltud ..... 42

4. 2. Ein barn ni ..... 46
4. 3. Swyddfeydd Cymru dramor ..... 46
4. 4. Ein barn ni ..... 47
4. 5. “Global Britain” a’r berthynas â Llundain ..... 47
4. 6. Ein barn ni ..... 49
4. 7. Pŵer Tawel ..... 50
4. 8. Ein barn ni ..... 52

# Rhagair y Cadeirydd

Rhaid i strategaeth newydd Cymru ar gyfer ymgysylltu â'r byd fod yn feiddgar, a rhaid iddi nodi'n glir graddfa uchelgais Llywodraeth Cymru. Yn y bôn, dyma'r pethau yr ydym yn galw amdanynt yn yr adroddiad hwn. Er bod llawer i'w ddathlu o ran y cysylltiadau y mae Cymru wedi'u meithrin dros y degawdau blaenorol, yn rhy aml, mae ei dull gweithredu wedi bod yn anghyson ac yn fratiog.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod gan Weinidog Cysylltiadau Rhyngwladol newydd Llywodraeth Cymru dasg bwysig i'w chwblhau o ran llywio agenda ryngwladol newydd sy'n seiliedig ar wneud y defnydd gorau o broffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol. Rhaid i'r gwaith hwn ddechrau o ddifrif yn awr, a rhaid inni weld cynnydd yn fuan.


Mae ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, sydd ar fin digwydd, yn golygu bod yr angen am strategaeth newydd yn fater brys. O ganlyniad i Brexit, bydd Cymru'n colli hawliau aelodaeth a mynediad mewn perthynas â sefydliadau a rhwydweithiau amrywiol y mae gennym yr hawl i gael mynediad atynt ar hyn o bryd. Roedd ein hadroddiad cyntaf ar berthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol yn nodi'n glir yr elfennau y byddai'r Pwyllgor yn dymuno eu gweld o ran y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Mae ein hail adroddiad, sef yr adroddiad hwn, wedi esblygu i fod yn ddarn ehangach o waith sy'n edrych ar yr amrediad o weithgareddau ymgysylltu y mae Cymru yn eu gwneud yn rhyngwladol. Mae'n cynnwys argymhellion ynghylch y ffordd ymlaen mewn nifer o feysydd, ac yn tynnu sylw at enghreifftiau o'r arferion gorau y gall Cymru ddysgu ohonynt.

Mae'n edrych hefyd ar rôl y Cymry ar wasgar. Y gwir yw bod Cymru wedi bod yn llawer llai llwyddiannus na gwledydd eraill tebyg o ran ymgysylltu â'n dinasyddion tramor, ac mae hynny'n siomedig. Rydym am weld y sefyllfa hon yn newid.

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at rôl rhai o asedau arbennig Cymru: ein hiaith, ein diwylliant, a'n gwerthoedd. Mae angen defnyddio'r asedau hyn yn well er mwyn creu cyfle unigryw inni hyrwyddo ein cenedl ledled y byd.

Mae'r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn adeiladu ar yr hyn a glywsom yn ystod rhan un o'n hymchwiliad. Hoffem ddiolch yn ddiffuant i'r holl bobl a roddodd gymorth inni drwy gyfrannu at ein gwaith. Hoffem ddiolch yn arbennig i gynrychiolwyr Norwy, Gwlad y Basg, Cwebec a'r Swistir am y croeso cynnes a gawsom yn ystod ein hymweliad â'u llysgenadaethau a'u swyddfeydd yn Llundain.



**David Rees AC**
Cadeirydd, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod y strategaeth ymgysylltiad rhyngwladol newydd i Gymru yn nodi maint uchelgais Llywodraeth Cymru o ran ymgysylltiad rhyngwladol ar ôl Brexit ac, mewn ymateb i'r adroddiad hwn, bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r amserlenni disgwyliedig ar gyfer cyhoeddi'r gwaith hwn. ....................Tudalen 22

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu mecanwaith ffurfiol - er enghraifft drwy greu is-bwyllgor Cabinet – i sicrhau cydgysylltiad effeithiol rhwng cylch gwaith y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol a chylch gwaith Gweinidogion eraill a all fod ag agwedd ryngwladol ar eu gwaith. ....................Tudalen 22

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod gan y strategaeth ryngwladol newydd gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol cysylltiedig. Dylai'r rhain fod ar gael i'r cyhoedd fel y gellir mesur cynnydd yn erbyn amcanion y strategaeth newydd yn flynyddol. ....................Tudalen 22

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, fanylion am y gwaith y mae'n ei wneud i gefnogi cymdeithas sifil drwy'r cyfnod pontio i ddyfodol ar ôl Brexit. Dylai'r ymateb hwn gynnwys asesiad o unrhyw gyllid ychwanegol sydd ei angen ar y sectorau â blaenoriaeth er mwyn cyflawni hyn. ....................Tudalen 31

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn trafod gyda'r UE y posibilrwydd y bydd Cymru yn parhau i gymryd rhan yn rhaglenni Ewrop a geir mewn meysydd datganoledig. Dylid symud ymlaen â'r gwaith hwn ar frys, gan roi diweddariad i'r Cynulliad erbyn hydref 2019. ....................Tudalen 35

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r perthnasau dwyochrog sydd ganddi ar hyn o bryd er mwyn asesu pa rai o'r perthnasau hyn y gellir eu cryfhau a'u dyfnhau yn y dyfodol, yn unol â blaenoriaethau strategol Cymru. ....................Tudalen 39

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio cynllun gweithredu ar gyfer ymgysylltu â Chymry alltud. Dylai'r cynllun gweithredu hwn gynnwys manylion am ba wledydd fydd yn cael eu blaenoriaethu a sut y bydd y Llywodraeth yn ceisio cyflawni hyn. ....................Tudalen 46


**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu dadansoddiad llinell sylfaen annibynnol, er enghraifft gan Swyddfa Archwilio Cymru, o weithrediad swyddfeydd tramor y Llywodraeth. Yn dilyn hynny, dylid defnyddio'r llinellau sylfaen hyn i fesur y cynnydd a wnaed gan y swyddfeydd, yn unol â'r strategaeth ryngwladol sydd i ddod................................................................Tudalen 47

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn:

- y camau y mae'n eu cymryd i gryfhau ei phresenoldeb a'i dylanwad yn Llundain;
- asesiad o ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar waith i wella ymwybyddiaeth a mynediad at adrannau Whitehall i wneud y mwyaf o'i dylanwad. .................................................................................................................. Tudalen 50

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn annog Llywodraeth y DU i gyhoeddi'r adolygiad o fecanweithiau rhynglywodraethol a gomisiynwyd gan y Gydbwyllgor Gweinidogion (Cyfarfod Llawn) ym mis Mawrth 2018, cyn gynted ag y bo modd...............................................................................................Tudalen 50

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod y strategaeth ymgysylltiad rhyngwladol newydd yn nodi meysydd o bŵer tawel lle gall Cymru arddangos arweinyddiaeth ryngwladol. ..........................................................................................................................Tudalen 52





# Pennod 1:

# Cyflwyniad

# 1. Cyflwyniad

## 1. 1. Y cefndir

**1.** Ym mis Mawrth 2018 cyhoeddwyd ein hadroddiad rhan un ar berthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol, a oedd yn canolbwyntio ar yr elfennau allweddol a ddylai fod yn rhan o'r berthynas rhwng Cymru a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad, gwnaethom ymrwymiad i archwilio rhai o'r themâu a godwyd yn ein hadroddiad rhan un yn fwy manwl. Yn dilyn hyn, mae'r adroddiad hwn wedi datblygu'n ddarn mwy o waith am le Cymru yn y byd, a sut y gallai Cymru osod ei hun ar y llwyfan rhyngwladol ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

**2.** Yn benodol, ffocws ein gwaith, fel yr amlinellwyd yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad, oedd:

- asesu ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at faterion allanol a nodi enghreifftiau o arferion gorau o leoedd eraill yn y byd;
- archwilio sut y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu ei chysylltiadau allanol yn y dyfodol â sefydliadau, rhanbarthau a rhwydweithiau allweddol rhyngwladol a/neu Ewropeaidd, gan gynnwys y gefnogaeth y mae'n ei darparu i gymdeithasau masnach a chymdeithas sifil;
- archwilio sut y mae trydydd gwledydd a gwledydd a rhanbarthau is-wladwriaeth yn ymgysylltu â'r UE a sefydliadau'r UE, a'r sail dros gydweithredu, er mwyn nodi modelau posibl y gellid eu mabwysiadu gan Gymru ar ôl Brexit; ac
- archwilio perthnasau Cynulliad Cenedlaethol Cymru â rhwydweithiau a sefydliadau Ewrop a gwneud argymhellion ar sut y gellir datblygu'r rhain ar ôl Brexit.

## 1. 2. Yr ymchwiliad Cymru yn y Byd

**3.** Yn ystod haf 2017, penododd y Pwyllgor ddau rapporteur - Steffan Lewis AC a Jane Hutt AC - i ymgymryd â gwaith casglu tystiolaeth ar ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at faterion allanol. Fel rhan o'r gwaith hwn, cafwyd trafodaethau gydag academyddion a chyhoeddwyd crynodeb rapporteur o'u trafodaethau ym mis Medi 2018.

**4.** Yn ein cyfarfod ar 24 Medi 2018, cytunwyd i ddatblygu canfyddiadau'r adroddiad rapporteur drwy ei ymgorffori yn ein gwaith ar berthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol, ac ehangu ei gwmpas i gynnwys cysylltiadau â gweddill y byd.

## 1. 3. Casglu tystiolaeth

**5.** Er mwyn llywio ein gwaith, cawsom dystiolaeth gan academyddion, rhwydweithiau Ewropeaidd a chymdeithas sifil ar y dyddiadau a ganlyn:

- 9 Gorffennaf 2018;
- 16 Gorffennaf 2018;
- 1 Hydref 2018.

**6.** Ym mis Hydref, arweiniodd y Cadeirydd ddirprwyaeth rapporteur i Lundain i siarad â chynrychiolwyr Norwy, Gwlad y Basg, Québec, a'r Swistir. Cyhoeddwyd crynodeb o'r trafodaethau hyn ar 18 Chwefror 2019.

**7.** Cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth hefyd gyda'r Farwnes Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ar 21 Ionawr 2019.

**8.** Darperir rhagor o fanylion am yr holl weithgareddau casglu tystiolaeth fel atodiad i'r adroddiad hwn.

## 1. 4. Y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol

**9.** Ym mis Tachwedd 2018, cytunodd y DU a'r UE mewn egwyddor ar destun y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol (y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel y "Cytundeb Ymadael").

**10.** Cafodd y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol eu gwrthod wedyn gan bleidlais Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 4 Rhagfyr 2018, a chan Senedd y DU ar 15 Ionawr 2019.

**11.** Nodwyd ein barn ni ar y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol mewn adroddiad a gyhoeddwyd ar 29 Tachwedd 2018.[1]

**12.** Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae ansicrwydd sylweddol o hyd ynglŷn â beth fydd statws y Cytundeb Ymadael yn y pen draw, a deallir bod trafodaethau rhwng y DU a'r UE yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Ar yr un pryd, mae'n debyg y

[1] Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru "Y Cytundeb Ymadael: Goblygiadau i Gymru" – 29 Tachwedd 2018

bydd o leiaf rai o'r agweddau allweddol yn ffurfio sail ar gyfer ymadawiad y DU a lle mae'n rhesymol gwneud hynny, mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at rannau perthnasol o'r Cytundeb Ymadael sy'n cynnig cipolwg o'r cyflwr terfynol yr hoffai'r DU a'r UE ei sicrhau ar gyfer y berthynas yn y dyfodol.


STOCKHOLM
SUOMI FINLAND
SVERIGE



# Pennod 2:

# Strategaeth cysylltiadau rhyngwladol newydd i Gymru

Dylai ymadawiad y Deyrnas Unedig o’r Undeb Ewropeaidd sydd ar fin digwydd roi ysgogiad newydd ac uniongyrchol i Gymru ailasesu ei rôl yn y byd a’i strategaeth gyffredinol ar gyfer ymgysylltiad a chysylltiadau rhyngwladol. Mae’r bennod hon yn edrych ar sut a pham y mae angen strategaeth newydd ar Gymru i ymgysylltu ar draws y byd.

# 2. Strategaeth cysylltiadau rhyngwladol newydd i Gymru

Dylai ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd sydd ar fin digwydd roi ysgogiad newydd ac uniongyrchol i Gymru ailasesu ei rôl yn y byd a'i strategaeth gyffredinol ar gyfer ymgysylltiad a chysylltiadau rhyngwladol. Mae'r bennod hon yn edrych ar sut a pham y mae angen strategaeth newydd ar Gymru i ymgysylltu ar draws y byd.

## 2. 1. Dull strategol

**13.** Cyhoeddwyd strategaeth ryngwladol bresennol Llywodraeth Cymru - Cymru a'r Byd – yn 2015, cyn penderfyniad refferendwm y DU i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

**14.** Awgrymodd nifer o dystion i'r ymchwiliad fod angen strategaeth newydd ar Gymru, nid yn unig i ystyried Brexit, ond blaenoriaethau newidiol Cymru. Dywedodd Auriol Miller o'r Sefydliad Materion Cymreig wrthym fod angen i strategaeth newydd fod yn glir o ran ei hamcanion a bod angen "sianeli clir" ar gyfer y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn ogystal â chymdeithas academaidd a sifil i ymgysylltu â'r strategaeth.[2]

**15.** Pwysleisiodd Syr Emyr Jones Parry o Gymdeithas Ddysgedig Cymru hefyd yr angen am strategaeth gliriach ar gyfer ymgysylltiad rhyngwladol Cymru. Dywedodd Syr Emyr:

> "What you need is to work out a strategy of, 'What are we trying to achieve, with whom, by whom, what are the assets that we have, how are we going to—all of us—? And it's not just Government; it's your responsibility and this committee, it's business, it's the university sector—you name it. In Wales, we all need to be with a louder voice trying to exert influence on behalf of Welsh interests. In my view, that's not happening, hasn't been happening with anything like a loud

[2] Cofnod y Trafodion, paragraff 36 – 1 Hydref 2018

> enough voice, but it needs to do so, but on the basis of clear objectives worked out."[3]

**16.** Aeth Syr Emyr ymlaen i grisialu'r sefyllfa mewn perthynas â'r angen am strategaeth:

> "We need a strategy, and, crucially, what do we want? What are our assets? How can we influence? Where is soft power? And how do we prioritise? That's the challenge for the nation."[4]

**17.** Pwysleisiodd Dr Christopher Huggins o Brifysgol Suffolk yr angen am ddull strategol. Dywedodd Dr Huggins:

> "The main message is don't find somewhere else and go, 'Oh, that looks nice, what they're doing; we'll tag onto it'; it's establish what you want to get out of this bilateral or multilateral contact first, and then develop your partnerships and your network activity around what you want to get out of it. So, there's always a temptation when you engage in this stuff to think, 'Well, Wales should be at the international level; it should be at the European level, and we'll just attach ourselves onto this network and this network and this network, because that way we'll be visible.' But if it's going to get real benefits, then it's got to meet what your underlying strategy is. So, you've got to have that strategic objective there first before you can go out and identify who you should be working with."[5]

**18.** Aeth Dr Huggins ymlaen i egluro bod gan yr awdurdodau lleol a'r llywodraethau is-genedlaethol sy'n effeithiol yn ceisio ymgysylltiad rhyngwladol syniad clir am yr hyn y maent am ei gael.[6] Dywedodd Dr Huggins:

> "Just responding to a call of, 'Do you want to link up to us?' isn't going to [go] very well if you have nothing in common with the partner region— you don't share policy objectives and so on. So, you want to base your activities on what, fundamentally, you want to get out of it, otherwise you're tied to a partnership or you're investing resource in a partnership that isn't going to deliver what you want out of it."[7]

---

[3] Cofnod y Trafodion, paragraff 28 – 1 Hydref 2018

[4] Cofnod y Trafodion, paragraff 19 – 1 Hydref 2018

[5] Cofnod y Trafodion, paragraff 18 – 16 Gorffennaf 2018

[6] Cofnod y Trafodion, paragraff 38 – 16 Gorffennaf 2018

[7] Cofnod y Trafodion, paragraff 40 – 16 Gorffennaf 2018

**19.** Yn ystod ein hymweliad â Llundain, i siarad â chynrychiolwyr Norwy, Gwlad y Basg, Quebéc a'r Swistir, neges allweddol o'r trafodaethau oedd yr angen am ddull strategol o ymdrin ag ymgysylltiad a chysylltiadau rhyngwladol. Tynnodd yr holl gynrychiolwyr sylw at y fframwaith strategol a ddefnyddir ganddynt i ymdrin â'u gwaith rhyngwladol, sydd wedi'i deilwra i'w hamgylchiadau cyfansoddiadol eu hunain.[8]

**20.** Awgrymodd Dr Elin Royles o Brifysgol Aberystwyth nad oedd gan strategaeth ryngwladol 2015 Llywodraeth Cymru allbynnau ystyrlon ac roedd yn methu â darparu cyfeiriad strategol ar gyfer ei gwahanol feysydd gwaith.[9]

**21.** Yn ei phapur, dywedodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ("y Gweinidog") y bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda phartneriaid dros y misoedd nesaf i ddatblygu strategaeth ryngwladol newydd.[10]

**22.** Mewn sesiwn tystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn bwriadu datblygu gweledigaeth ryngwladol newydd i Gymru. Dywedodd:

> "Mae hon yn swydd newydd; mae'n gyfle i ni roi rhyw fath o olygfa newydd ar sut rŷm ni'n gweld ein perthynas ni, nid jest o fy adran i, ond ar draws y Llywodraeth i gyd, ac mewn partneriaeth gyda mudiadau eraill dros Gymru gyfan. Dwi yn meddwl bod hwnna'n bwysig.
>
> Beth doeddwn i ddim eisiau'i wneud ar y dechrau oedd gosod allan beth mae'r uchelgais yna'n edrych fel, achos dwi'n awyddus iawn bod pob un yn helpu datblygu beth ddylai hynny edrych fel. Wrth gwrs mae gen i syniadau fy hun am sut hoffwn i weld hynny'n datblygu. Dwi'n awyddus iawn i sicrhau ein bod ni'n gweithio ar draws yr adrannau gwahanol gyda phartneriaethau trwy Gymru gyfan. Dwi'n awyddus iawn i godi proffil Cymru yn y byd, ac, wrth gwrs, un o'r prif bethau dwi eisiau'i wneud yw sicrhau bod ein hagwedd ni tuag at ein perthynas ryngwladol yn edrych ar sut allwn ni gynyddu cyfoeth ein gwlad."[11]

**23.** Nododd y Gweinidog ei blaenoriaethau personol i'r Pwyllgor, ond dywedodd hefyd nad oedd yn dymuno "cloi lawr" trafodaethau ynghylch dull strategol y Llywodraeth. Dywedodd y byddai ei gweledigaeth yn cynnwys sylfaen sy'n

[8] Adroddiad rapporteur

[9] Crynodeb rapporteur – Cymru yn y Byd

[10] Sesiwn dystiolaeth, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

[11] Cofnod y Trafodion, paragraffau 8 a 9 – 21 Ionawr 2019

seiliedig ar werth yng Nghymru yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a bod yn Wlad Gwaith Teg.[12]

**24.** Cydnabu'r Gweinidog hefyd yr angen i weithio ar draws adrannau'r llywodraeth a phortffolios gweinidogol. Dywedodd:

> "I think we do need clarity in terms of who is responsible for what. We'll all have to be working hand in glove with one another on anything relating to international relations, but Wylfa is quite a good example, because energy is in the portfolio of Lesley Griffiths, economic development and the north Wales economy is in the hands of Ken Skates, and I'm responsible for international relations. We need to be clear about who is leading on that. Now, Ken Skates is leading on that, but we need to make sure that Ken is therefore instructing me to make those international relationships with, for example, the Japanese ambassador if he deems that to be necessary. So, it's making sure that we are clear about who is leading on those kinds of projects. So, that's an example where I think we—. That's a very good example where we need to be working cross departmentally but having a lead Minister."[13]

## 2. 2. Ein barn ni

Er mwyn i strategaeth ryngwladol newydd lwyddo, bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n llwyddiannus â busnesau, prifysgolion a chymdeithas sifil Cymru wrth ddylunio a gweithredu'r strategaeth newydd. Clywsom rai syniadau cychwynnol gan y Gweinidog ynghylch ei blaenoriaethau, a roddodd syniad inni o'i hymagwedd tuag at y rôl. Fodd bynnag, mae cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd i ddatblygu'r weledigaeth gyffredinol sy'n angenrheidiol i gwrdd â'r heriau a'r cyfleoedd yn sgil Brexit er mwyn gwneud y gorau o sefyllfa a dylanwad Cymru ar draws y byd.

Rydym yn croesawu'r penodiad o Weinidog lefel cabinet gyda chyfrifoldeb penodol dros gysylltiadau rhyngwladol o fewn Llywodraeth Cymru. Credwn fod hwn yn faes y bydd angen i Lywodraeth Cymru roi mwy o sylw iddo dros y blynyddoedd nesaf. O ran rôl y Gweinidog, mae'n amlwg inni fod llawer o agweddau ar gysylltiadau rhyngwladol yn rhan o sawl portffolio gweinidogol arall, yn enwedig portffolios yr economi, yr amgylchedd ac addysg. Rydym yn

[12] Cofnod y Trafodion, paragraff 12 – 21 Ionawr 2019

[13] Cofnod y Trafodion, paragraff 33 – 21 Ionawr 2019

ymwybodol y bydd angen llawer o gydgysylltiad ar draws y llywodraeth ar gyfer hyn.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod y strategaeth ymgysylltiad rhyngwladol newydd i Gymru yn nodi maint uchelgais Llywodraeth Cymru o ran ymgysylltiad rhyngwladol ar ôl Brexit ac, mewn ymateb i'r adroddiad hwn, bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r amserlenni disgwyliedig ar gyfer cyhoeddi'r gwaith hwn.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu mecanwaith ffurfiol - er enghraifft drwy greu is-bwyllgor Cabinet – i sicrhau cydgysylltiad effeithiol rhwng cylch gwaith y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol a chylch gwaith Gweinidogion eraill a all fod ag agwedd ryngwladol ar eu gwaith.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod gan y strategaeth ryngwladol newydd gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol cysylltiedig. Dylai'r rhain fod ar gael i'r cyhoedd fel y gellir mesur cynnydd yn erbyn amcanion y strategaeth newydd yn flynyddol.





# Pennod 3:

# Rôl Cymru yn Ewrop ar ôl Brexit

Mae'r bennod hon yn amlinellu rhai o'r ystyriaethau y bydd angen eu gwneud o ran cysylltiadau Cymru yn y dyfodol ag Ewrop a sefydliadau a rhwydweithiau'r Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit.

# 3. Rôl Cymru yn Ewrop ar ôl Brexit

Mae'r bennod hon yn amlinellu rhai o'r ystyriaethau y bydd angen eu gwneud o ran cysylltiadau Cymru yn y dyfodol ag Ewrop a sefydliadau a rhwydweithiau'r Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit.

**25.** Thema allweddol o'n hymchwiliad rhan un oedd yr angen i sicrhau bod Cymru a Llywodraeth Cymru yn canfod ffyrdd newydd o gynnal perthynas Cymru â sefydliadau a rhwydweithiau Ewrop ar ôl Brexit.

**26.** Nododd nifer o dystion y bydd mynediad a dylanwad Cymru yn Ewrop yn dirywio o ganlyniad i Brexit.[14]

**27.** Eglurodd Syr Albert Bore, pennaeth dirprwyaeth y DU i Bwyllgor y Rhanbarthau y gallai sefydliadau'r UE fod yn gyndyn o gael perthynas uniongyrchol, ffurfiol ag is-wladwriaeth fel Cymru ar ôl Brexit. Dywedodd Syr Albert:

> "[…]the Council of Ministers and therefore the Commission, are always reluctant to have an EU/sub-regional member-state-type arrangement. It's objected to, in some respects, with some of the Spanish regions, for example, and the fear amongst the former Spanish Government that that would simply encourage the separatist agenda. So, there has been a marked reluctance within the EU to set things up that are bilateral, if you like, between the EU and a region of a Member state. The opposite way around, you will find examples of where, for example, Quebec or some of the American states have got their own EU office, and therefore you've got it the other way around, but of course the EU can't prevent that—not from the point of view of EU looking outwards of the EU. I think there's that reluctance to engage with a specific region of a state, because of its potential impact—if it was with the UK or a region of the UK—because of its potential impact upon the EU, in terms of a region of a member state within the EU. So, I think there are issues there. There's no-one saying it couldn't happen, but I think, from what

[14] Cofnod y Trafodion, paragraffau 20, 25 – 16 Gorffennaf 2018

> has happened in the past, I personally believe there might be a reluctance to move in that direction."[15]

**28.** Amlinellodd Dr Christopher Huggins anawsterau sy'n ymwneud â chyfranogiad parhaus Cymru mewn strwythurau Ewropeaidd mwy ffurfiol. Dywedodd Dr Huggins:

> "The problem with the flexibility angle on that is these are organisations that operate under the EU treaties, and so their role and membership is very clearly defined in those. And if you want to change how those organisations operate, or under what rules they operate, you've normally got to change the EU treaties, which is very difficult to do."[16]

**29.** Aeth Dr Huggins ymlaen i awgrymu y gallai ymgysylltu â rhwydweithiau llai ffurfiol (megis Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol) fod yn ffordd haws o ddylanwadu ar ôl Brexit. Pwysleisiodd Dr Huggins hefyd bwysigrwydd buddiannau ac amcanion cyffredin:

> "You know, if you want to pursue common interests, if you want to operate on the European level, then having partners in Europe who share common interests, share common policy objectives, if you like, helps to build a critical mass of trying to get your voice out there."[17]

## 3. 1. Y berthynas â Senedd Ewrop

**30.** Ers ein sefydlu, rydym wedi cynnal deialog rheolaidd gyda'n cymheiriaid ym Mrwsel, yn enwedig Senedd Ewrop, wrth i broses Brexit ddatblygu. Mae'r rhain wedi cynnwys trafodaethau anffurfiol gydag uwch-Aelodau Seneddol Ewropeaidd o ran sefydlu mecanweithiau i'r cysylltiadau rhwng y Cynulliad a Senedd Ewrop barhau ar ôl Brexit.

**31.** Yn y gorffennol mae ymgysylltiad â Senedd Ewrop wedi bod yn rhan ganolog o ymagwedd y Cynulliad tuag at ymgysylltu â materion Ewropeaidd, yn enwedig yn dilyn Cytuniad Lisbon.[18]

**32.** Tynnodd Syr Albert Bore sylw at y ffaith na fydd gan y DU "sedd wrth y bwrdd" ar ôl 29 Mawrth 2019, gan gynnwys yn Senedd Ewrop. Fodd bynnag,

---

[15] Cofnod y Trafodion, paragraff 26 – 9 Gorffennaf 2018

[16] Cofnod y Trafodion, paragraff 88 – 16 Gorffennaf 2018

[17] Cofnod y Trafodion, paragraff 12 – 16 Gorffennaf 2018

[18] Mae'r enghreifftiau'n cynnwys: Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, "Materion Ewropeaidd – dull o weithio"

ychwanegodd y bydd prosesau o fewn yr UE-27 yn parhau a bydd, yn sicr, mewn rhai achosion, yn cael effaith ar y DU, hyd yn oed os bydd y DU, maes o law, yn ymadael ar ôl cyfnod pontio.[19]

**33.** Nid yw’r Cytundeb Ymadael rhwng y DU a’r UE yn cynnwys darpariaethau ar gyfer ymgysylltiad rhyngseneddol ffurfiol (yn ystod y cyfnod pontio) y tu hwnt i barhad cyfyngedig o’r cyflenwad o wybodaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd i Senedd y DU.[20]

**34.** Dylai’r Datganiad Gwleidyddol sy’n nodi fframwaith y dyfodol ar gyfer y berthynas rhwng y DU a’r UE yn y dyfodol gynnwys “deialog rhwng Pleidiau” gan gynnwys “ar lefel seneddol”.[21] At hynny, mae’r Datganiad yn nodi y gallai’r fframwaith sefydliadol cyffredinol fod ar ffurf Cytundeb Cysylltu

## 3. 2. Ein barn ni

Rydym yn cydnabod rôl bwysig a buddiol y cysylltiadau rhyngseneddol rhwng y Cynulliad a Senedd Ewrop yn y gorffennol. Rydym yn cytuno ei bod yn hollbwysig bod y Cynulliad yn cadw ffordd o ymgysylltu â Senedd Ewrop ar ôl Brexit. Rydym yn nodi bod y Datganiad Gwleidyddol yn gadael cyfleoedd ar agor ar gyfer cysylltiadau rhyngseneddol agosach ar ôl Brexit. Byddem yn disgwyl rôl ffurfiol ar gyfer y deddfwrfeydd datganoledig - naill ai fel rhan o ddirprwyaeth y DU, neu fel rhan o gyfluniad o fewn strwythur cyffredinol UE-DU - mewn unrhyw drefniadau rhyngseneddol yn y dyfodol. Byddwn yn adolygu’r sefyllfa hon ac yn parhau i wneud yr achos dros fuddiannau Cymru wrth i’r broses ddatblygu.

## 3. 3. Pwyllgor y Rhanbarthau

**35.** Yn ein hadroddiad rhan un, gwnaethom gydnabod y rôl bwysig a buddiol y mae aelodaeth Cymru o Bwyllgor y Rhanbarthau wedi’i chwarae yn y gorffennol.[22]

**36.** Disgrifiodd Dr Christopher Huggins y ffordd y mae Pwyllgor y Rhanbarthau yn un llwybr i Gymru ddylanwadu yn Ewrop. Dywedodd wrthym:

---

[19] Cofnod y Trafodion, paragraff 65 – 9 Gorffennaf 2018

[20] Y Comisiwn Ewropeaidd, “Cytundeb Drafft ar ymadawiad Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon â’r Undeb Ewropeaidd” – 14 Tachwedd 2018

[21] Y Comisiwn Ewropeaidd, “Datganiad Gwleidyddol sy’n nodi’r fframwaith ar gyfer y berthynas rhwng yr Undeb Ewropeaidd a’r Deyrnas Unedig yn y dyfodol” – 22 Tachwedd 2018

[22] Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: “Perthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol – rhan un” – Mawrth 2017

> "The Committee of the Regions as a consultative body is always going to have that soft power role. It doesn't have formal decision-making powers. One of the criticisms that it often gets is it is just a consultative body. The other institutions don't have to listen to what it says. All of these areas, I guess, are about how you maximise the various routes where you want to try and influence what's going on, and rather than putting your eggs in one basket, like the Committee of the Regions, you might pursue a range of different networks as well, related to whatever you want to get out of this activity."[23]

**37.** Bydd aelodaeth y DU o holl sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys Pwyllgor y Rhanbarthau, yn dod i ben ar 29 Mawrth 2019.

**38.** Yn ei dystiolaeth, dywedodd Syr Albert Bore wrthym fod Dirprwyaeth y DU i Bwyllgor y Rhanbarthau wedi cynnig dull dau gam i ddatblygu perthynas rhwng y DU a Phwyllgor y Rhanbarthau yn y dyfodol. Yn y byrdymor, y bwriad yw creu comisiwn ar y cyd rhwng y DU a Phwyllgor y Rhanbarthau i gwmpasu'r cyfnod pontio rhwng "Diwrnod Brexit" a sefydlu trefniadau mwy parhaol.[24]

**39.** Yn y tymor hwy, dywedodd Syr Albert wrthym fod cynigion yn cael eu hystyried ar gyfer creu rhanbarth macro-economaidd i gwmpasu gogleddorllewin Ewrop. Dywedodd Syr Albert:

> "We were then looking at a period beyond any transition period where we had a more lasting arrangement, which picked up on where the European Commission have been moving things, and that is in terms of macro-economic regions. There are a number of macro-economic regions already established and, therefore, there is an opportunity with EU funding sitting in behind macro-economic regions to look at economic issues across the regions perhaps of a number of member states. We wondered whether or not, post Brexit, that we might look at a north-west Europe macro-economic region, which then engaged the UK, not just with the north-west of Europe, but also potentially with the likes of Norway and Iceland. That would be phase 2, but phase 2 would require the agreement of member states. We would have to go down that route. It's going to take rather longer to set up a macro-economic region if that is to be, if you like, the nature of phase 2."[25]

---

[23] Cofnod y Trafodion, paragraff 90 – 16 Gorffennaf 2018

[24] Cofnod y Trafodion, paragraff 33 – 9 Gorffennaf 2018

[25] Cofnod y Trafodion, paragraff 6 – 9 Gorffennaf 2018

**40.** Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd Mick Antoniw AC a Bethan Sayed AC, yn eu rolau fel cynrychiolwyr y Cynulliad ym Mhwyllgor y Rhanbarthau, adroddiad yn amlinellu'r opsiynau ar gyfer perthynas Cymru gyda Phwyllgor y Rhanbarthau yn y dyfodol.[26] Roeddent yn argymell fel a ganlyn:

- bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydnabod y pwysigrwydd o gynnal perthynas barhaus â sefydliadau a rhwydweithiau'r UE, gan gynnwys Pwyllgor y Rhanbarthau, ar ôl Brexit;
- dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gyfarfodydd uniongyrchol gyda Phwyllgor y Rhanbarthau a chyrff perthnasol eraill yr UE i drafod sut y gellid cyflawni hyn; a
- dylai Llywodraeth Cymru godi'r mater â Llywodraeth y DU o gael cynrychiolaeth gyswllt barhaus ar Bwyllgor y Rhanbarthau.

## 3. 4. Ein barn ni

Rydym wedi nodi'n flaenorol y "rôl bwysig a buddiol" y mae aelodaeth Cymru o Bwyllgor y Rhanbarthau wedi'i chwarae.

Rydym yn croesawu'r cynnig ar gyfer comisiwn ar y cyd rhwng y DU a Phwyllgor y Rhanbarthau ar ôl Brexit ac yn gobeithio y bydd Cymru yn chwarae rhan yn hyn.

Nodwn y bydd y Cynulliad yn cael cyfle i fynegi ei farn ar y cyd ar yr argymhellion a wnaed gan Mick Antoniw a Bethan Sayed mewn Cyfarfod Llawn ym mis Mawrth 2019.

## 3. 5. Rhwydweithiau anffurfiol

**41.** Yn ystod cam cyntaf ein gwaith, clywsom am bwysigrwydd rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol a'r rôl werthfawr y maent yn ei chwarae o ran cydweithredu a dysgu polisi.[27]

---

[26] Mick Antoniw AC a Bethan Sayed AC, "Perthynas Cymru gyda Phwyllgor y Rhanbarthau yn y dyfodol" – Ionawr 2019

[27] Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: "Perthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol" – Mawrth 2018

**42.** Awgrymodd yr Athro Michael Keating, Prifysgol Aberdeen, y byddai busnesau a sefydliadau cymdeithasau sifil yn chwarae rhan bwysig wrth gynnal mynediad at rwydweithiau Ewropeaidd ar ôl Brexit.[28]

**43.** Amlygwyd y Vanguard Initiative a'r Atlantic Arc Commission gan dystion a allai fod yn bwysig ar ôl Brexit.[29]

**44.** Soniodd Dr Rachel Minto wrthym am bwysigrwydd edrych y tu hwnt berthnasau rhyngwladol y llywodraeth a'r Cynulliad yn unig. Dywedodd Dr Minto:

> "It's a huge concern to those within civil society, and for those working at a devolved level there's a particular significance to those European networks. There's a concern about the nature of their relationship with those European networks post Brexit, and I think this is something that's really important that we emphasise—it's not only the Government and the Assembly, but it's really important for non-state actors as well."[30]

**45.** Awgrymodd Auriol Miller fod defnyddio rhwydweithiau anffurfiol yn llwybr pwysig i Gymru gael lleisio ei barn yn Ewrop, ond ychwanegodd fod angen i gymdeithas sifil flaenoriaethu ei rhwydweithiau ei hun.[31]

**46.** Yn ystod ein hymweliad â Llundain, tynnodd Norwy sylw at yr angen i adeiladu rhwydweithiau fel ffordd hanfodol o ddylanwadu ar broses llunio polisi'r UE fel gwladwriaeth nad yw'n aelod.[32]

## 3. 6. Ein barn ni

Yn y rhannau cyntaf ac ail o'n gwaith yn y maes hwn, clywsom am y rôl bwysig y mae rhwydweithiau Ewropeaidd yn ei chwarae wrth gyfnewid syniadau a chydweithredu ar bolisi. Credwn fod hyn o fudd mawr i Gymru, fodd bynnag, clywsom bryderon y gallai fod angen cymorth ar gymdeithas sifil i drosglwyddo o'r trefniadau perthynas cyfredol i'r dyfodol o ganlyniad i Brexit.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, fanylion am y gwaith y mae'n ei wneud i gefnogi cymdeithas sifil drwy'r cyfnod pontio i ddyfodol ar ôl Brexit. Dylai'r ymateb hwn

[28] Crynodeb rapporteur - Cymru yn y Byd

[29] Adroddiad rapporteur; Cofnod y Trafodion, paragraff 51, – 1 Hydref 2018

[30] Cofnod y Trafodion, paragraff 55 – 16 Gorffennaf 2018

[31] Cofnod y Trafodion, paragraffau 109-110 – 10 Hydref 2018

[32] Adroddiad rapporteur

gynnwys asesiad o unrhyw gyllid ychwanegol sydd ei angen ar y sectorau â blaenoriaeth er mwyn cyflawni hyn.

## 3. 7. Presenoldeb Llywodraeth Cymru ym Mrwsel

**47.** Yn ei thystiolaeth, nododd yr Athro Jo Hunt nad yw'r amgylchedd rhyngwladol cystadleuol, y tu allan i'r UE, wedi'i fireinio cystal, nac mor gymwynasgar i anghenion a phryderon is-wladwriaethau. O ganlyniad i hyn, bydd yn rhaid i Gymru weithio'n galetach er mwyn cael dylanwad ym Mrwsel ac mewn mannau eraill.[33]

**48.** Tynnodd Dr Christopher Huggins sylw at bwysigrwydd cynnal presenoldeb ym Mrwsel. Dywedodd wrthym:

> "Brussels is like the hub, if you like, of many of these links and activities, so you get a lot of bang for your buck if you go to Brussels, because there's a high concentration of people there that you can link up with and network with. So, you need the resource to do that, but you also need investment in people with skills. So, if you want to do EU engagement, you need people who know how the EU functions, not only in terms of its formal legislative procedures, but also in terms of how to play the Brussels game of informally influencing policies, for example, and people who are sensitive to what's going on around them. So, people with language skills help, for example, because it allows you to build those one-to-one relationships that are often quite crucial to building these wider partnerships."[34]

**49.** Mae gan bob un y gwnaethom gwrdd â hwy yn Llundain - cynrychiolwyr Norwy, Gwlad y Basg, Québec, a'r Swistir, bresenoldeb parhaol ym Mrwsel.[35]

**50.** Amlygodd Des Clifford, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Swyddfa'r Prif Weinidog a Brexit yn Llywodraeth Cymru, yr angen am bresenoldeb parhaus ym Mrwsel ar ôl Brexit. Dywedodd Mr Clifford:

> "There is another very important aspect to all of this: if we're outside of the European Union, which could happen quite quickly, we will lose access to all of that institutional information that is now ours as of right. We will literally have to go knocking on the doors of our friends in Brussels to tell us what's happening inside the European Union. So,

[33] Crynodeb rapporteur – Cymru yn y Byd
[34] Cofnod y Trafodion, paragraff 68 – 16 Gorffennaf 2018
[35] Adroddiad rapporteur

> those informal sources of information, which have always been useful to us—that informal opportunity to network—actually, the premium on that will become very much greater as a result of being outside because we will have to find new ways of working and new ways of accessing the information and new ways of trying to bring influence to bear."[36]

**51.** Dywedodd y Gweinidog hefyd mai dyma'r amser i "atgyfnerthu" y berthynas ym Mrwsel a disgrifiodd unrhyw symudiadau i dynnu allan o ganlyniad i Brexit fel "camgymeriad mawr".[37]

## 3. 8. Ein barn ni

Cytunwn y dylai Llywodraeth Cymru gadw ei phresenoldeb ym Mrwsel ac y dylai'r Llywodraeth sicrhau bod gan ei phresenoldeb yno ddigon o adnoddau i sicrhau'r budd mwyaf i Gymru.

## 3. 9. Rhaglenni'r UE

**52.** Yn ein hadroddiad rhan un, nodwyd nifer o raglenni ac asiantaethau Ewropeaidd y dylai Cymru geisio parhau i ymwneud â hwy ar ôl Brexit. Roeddent yn cynnwys Asiantaeth Meddyginiaethau Ewrop, Erasmus+, Horizon 2020 (ac unrhyw raglenni olynol). Awgrymodd nifer o dystion y byddai angen i Gymru feddwl a gweithredu'n greadigol os yw am sicrhau cyfranogiad o'r fath ar ôl Brexit.[38]

**53.** Dywedodd Auriol Miller wrthym fod aelodau'r Sefydliad Materion Cymreig yn blaenoriaethu perthnasoedd ym meysydd addysg bellach ac addysg uwch, Erasmus+, Creative Europe a chydweithredu ar ymchwil ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg.[39]

**54.** Dywedodd Basque Trade and Investments wrthym ei fod wedi elwa'n fawr, o ran cystadleurwydd, o rwydweithiau ymchwil a datblygu'r UE. O ran y rhwydweithiau yr oedd Gwlad y Basg yn ystyried y dylai Cymru eu blaenoriaethu ar ôl Brexit, awgrymwyd Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol.[40]

[36] Cofnod y Trafodion, paragraff 55 – 21 Ionawr 2019
[37] Cofnod y Trafodion, paragraff 97 – 21 Ionawr 2019
[38] Crynodeb rapporteur Cymru yn y Byd; Cofnod y Trafodion, paragraff 63 – 1 Hydref 2018;
[39] Cofnod y Trafodion, paragraff 67 – 1 Hydref 2018
[40] Adroddiad rapporteur

**55.** Yn gyffredin â'r adran flaenorol ar ymwneud â sefydliadau'r UE, nodwyd bod cyfranogiad Cymru wedi'i briodoli yn hanesyddol i gyfranogiad y DU a/neu aelodaeth (o'r sefydliadau hyn). Fodd bynnag, awgrymodd Syr Emyr Jones Parry y dylid ystyried bob opsiwn:

> "Let me throw out one suggestion, which is, in the end, depending on what Britain ends up with as a future relationship with the EU, it doesn't exclude, in my view, having a Wales relationship with bits of the EU. I'll elaborate that with an example. Nid wyf yn gwybod sut mae ymchwil a datblygiad yn mynd i weithio oherwydd ei fod yn llawer mwy cymhleth nag, ar y golwg gyntaf, mae'n ymddangos. If those links are to continue, great, but they may not. I don't see why Wales couldn't have its own participation in Horizon Europe, post 2020. You'll say Wales is not a nation state in an international sense. No, but legally it's my view that if the British Government didn't object and if the European Commission were prepared to recommend, you could have a Wales agreement with parts of the EU. I think that's well worth looking at to see if somehow we can insinuate ourselves into processes that are taking place."[41]

**56.** Aeth Syr Emyr ymlaen i ddweud ei bod yn annhebygol y byddai'r UE yn cynnig telerau sydd mor fanteisiol i Gymru ag sydd ar hyn o bryd. Dywedodd y canlynol:

> "The proposal is that anybody who's not a member of the EU should not be allowed to get out more than they put in, and that's a big disincentive, and no share in decision making either for the strategy or for individual projects—and you're now getting down to a point where it's becoming very unattractive. So, I'm not arguing necessarily for it, what I'm saying is that it may be worth exploring possibilities."[42]

**57.** Yn ystod ei thystiolaeth, nododd y Gweinidog Erasmus+ a chydweithredu o ran ymchwil ym maes gwyddoniaeth fel meysydd posibl ar gyfer cyfranogiad parhaus ar ôl Brexit. Dywedodd:

> "I think we've been clear that we would like to see those relationships continue. So, Erasmus+ is a particular area that we'd like to focus on. If you think about the science programme, in Britain we do really, really, well from this, and part of the problem about coming out of the EU

[41] Cofnod y Trafodion, paragraff 52 – 1 Hydref 2018

[42] Cofnod y Trafodion, paragraff 58 – 1 Hydref 2018

would be that, actually, whereas we get quite a bonanza in relation to what we put in at the moment, we'd probably be in a relationship that looks much more like Israel, for example, where you can only get out what you put in, and you don't have the opportunity to shape the programme in the first place. So, there are undoubtedly lots of disadvantages of not being part of the EU in relation to some of those programmes, and yet I think there are enough advantages for us to continue with supporting those kinds of things."[43]

**58.** Mae'r Datganiad Gwleidyddol, wrth bennu fframwaith y dyfodol ar gyfer y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, yn nodi y bydd y ddwy ochr yn ceisio sefydlu telerau ac amodau ar gyfer cyfranogiad y Deyrnas Unedig mewn rhaglenni Undeb mewn meysydd sy'n cynnwys "gwyddoniaeth ac arloesi, ieuenctid, diwylliant ac addysg".[44] Mae'r Datganiad yn ychwanegu y dylai unrhyw drefniadau o'r fath gynnwys cyfraniad ariannol teg a phriodol.[45]

## 3. 10. Ein barn ni

Yn hanesyddol, mae Cymru wedi mwynhau buddiannau rhaglenni Ewrop drwy statws y DU fel Aelod-wladwriaeth. Ni ddylai hyn atal Cymru rhag chwilio am bartneriaethau newydd mewn ffordd greadigol yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod sefyllfa Llywodraeth Cymru y bydd yn parhau i eirioli cyfranogiad yn rhaglenni cyllido yr UE ledled y DU. Fodd bynnag, os na fydd Llywodraeth y DU yn sicrhau hyn, yna dylai Llywodraeth Cymru ystyried sicrhau cyfranogiad ei hun, mewn meysydd sydd wedi'u datganoli'n glir a lle ystyrir bod buddiannau clir i Gymru.

Pe bai cynigion penodol ar gael, byddai angen i Lywodraeth Cymru a darpar sefydliadau sy'n cyfranogi ymgymryd â dadansoddiad cost-budd o unrhyw gynigion ar gyfer cyfranogiad Cymru yn rhaglenni Ewrop ar y cyd ar ôl Brexit.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn trafod gyda'r UE y posibilrwydd y bydd Cymru yn parhau i gymryd rhan yn rhaglenni Ewrop a geir mewn meysydd datganoledig. Dylid symud ymlaen â'r gwaith hwn ar frys, gan roi diweddariad i'r Cynulliad erbyn hydref 2019.

[43] Cofnod y Trafodion, paragraff 57 – 21 Ionawr 2019

[44] Y Comisiwn Ewropeaidd, "Datganiad Gwleidyddol sy'n nodi'r fframwaith ar gyfer y berthynas rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol" – 22 Tachwedd 2018

[45] Ibid.

## 3. 11. Y Gynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol (CALRE)

**59.** CALRE yw'r prif rwydwaith y mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru berthynas â hi. Ym mis Ionawr 2019, nododd y Llywydd, Elin Jones AC, fod aelodau CALRE "yn fodlon mewn egwyddor, ac yn wir yn frwdfrydig, i hwyluso ein bod yn parhau i gyfranogi ar ôl Brexit".[46]

**60.** Yn ei llythyr, darparodd y Llywydd ddyfyniad o lywyddiaeth CALRE a oedd yn nodi:

> "The members of CALRE welcome the stay of the United Kingdom regions after the Brexit as members of full right and through an exception to the rule that the members of CALRE should be from Member-States of the European Union, although they understand that the matter should be approached only after the exit of the United Kingdom and taking into account the content of its agreement, in the way that only then will be possible to have a clear and extensive view of the future relation, in general, of the United Kingdom with the EU and, particularly, in the scope of the regional and territorial cooperation."[47]

**61.** Gan edrych yn fwy eang ar weithgareddau ymgysylltiad rhyngwladol y Cynulliad, dywedodd y Llywydd:

> "Nid wyf yn disgwyl i'n hymgysylltiad â'r rhwydweithiau rhyngwladol eraill yr ydym yn cymryd rhan ynddynt, sef Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA) a Chymdeithas Seneddol Prydain ac Iwerddon (BIPA), gael eu heffeithio'n uniongyrchol gan Brexit; er gallent fod yn fwy arwyddocaol i'n Haelodau, yn sgil unrhyw gyfyngiadau a fydd yn ein rhwystro rhan cyfranogi ac ymgysylltu sy'n ddibynnol ar fod yn aelod o'r UE."[48]

## 3. 12. Ein barn ni

Rydym yn croesawu'r ffaith y gall y Cynulliad barhau i fod yn aelod o CALRE ar ôl Brexit ac rydym yn cefnogi ymdrechion y Llywydd yn hynny o beth.

---

[46] Gohebiaeth gan y Llywydd at y Cadeirydd ynghylch perthynas Cymru gyda'r UE yn y dyfodol – 8 Ionawr 2019

[47] Ibid.

[48] Ibid.

Rydym hefyd yn nodi'r pwysigrwydd a roddwyd ar sefydliadau Cytundeb Dydd Gwener y Groglith yn y Cytundeb Ymadael arfaethedig. Fel y cyfryw, byddem hefyd yn annog ymgysylltiad parhaus, ac os yn bosibl, cryfach gyda'r sefydliadau hynny, gan gynnwys Cynulliad Seneddol Prydain-Iwerddon.

## 3. 13. Perthnasau dwyochrog a memoranda cyd-ddealltwriaeth

**62.** Yn ystod yr ymchwiliad, clywsom am nifer o berthnasau dwyochrog y mae Cymru yn eu mwynhau, gan gynnwys y rheini â Llydaw, Fflandrys, Gwlad y Basg, Galicia, a Noord Holland. Mae Llywodraeth Cymru wedi llofnodi Memoranda Cyd-ddealltwriaeth â Llydaw, Gwlad y Basg a Galicia. Mae hefyd wedi llofnodi Datganiad o Gyfeillgarwch a Chydsefyll â Noord Holland.[49]

**63.** Mae gan Wlad y Basg a Chymru Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n seiliedig ar feysydd o ddiddordeb cyffredin, sy'n cynnwys trethiant, diwylliant, iaith, yr economi a masnach, hyfforddiant galwedigaethol ac Erasmus+. Yn ystod ein cyfarfod â Basque Trade and Investment, nodwyd bod gan Gymru a Gwlad y Basg ddiddordeb cyffredin mewn amddiffyn a hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol. At hynny, dadleuwyd y gallai statws cyfreithiol y perthnasau hyn newid, yn sgil Brexit, ond na fydd ffaith a natur y perthnasoedd hyn yn newid.[50]

**64.** Mae diweddariad Llywodraeth Gwlad y Basg o strategaeth fframwaith rhyngwladoli 2020 yn nodi'n eglur ei rhesymeg dros flaenoriaethu perthnasau dwyochrog penodol. Mae'n nodi bod y DU a Chymru yn feysydd blaenoriaeth i'w hystyried rhwng 2018 a 2020. Mae'n nodi bod y DU ymhlith y pum gwlad uchaf y mae angen sylw arnynt, tra bod Cymru yn y pum rhanbarth uchaf. Mae strategaeth Llywodraeth Gwlad y Basg yn nodi fel a ganlyn:

> "The EU as a supra-state body and Europe as a whole are the main priority area. On a specific, bilateral level the UK, Germany and France are long-term partners of the Basque Country, and have close links to it in fields as wide-ranging as public institutions, the economy (they are its main trading partners), science, culture and tourism…
>
> Also in a specific context within Europe, the current and potential future members of the Basque Network of Strategic Partnerships are priority objectives, for their geographical proximity and for the historic, multi-sectoral links maintained with them as in the case of Aquitaine, or because they are comparable territories in terms of their strong

[49] Tystiolaeth ysgrifenedig, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

[50] Adroddiad rapporteur

> identities, as in the case of Flanders, Wales, Scotland, Bavaria and Québec."[51]

**65.** Cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Québec ei pholisi rhyngwladol yn 2017 - Québec: On the world stage: Involved, engaged, thriving.[52] Mae hyn yn nodi mai prif bartner rhyngwladol Québec ym maes cydweithrediad aml-sector yw Ffrainc. Mae'r llywodraeth yn nodi mai hi yw cynghreiriad naturiol Québec, yn enwedig mewn fforymau amlochrog, ond hefyd yn yr ymdrech barhaus i ddatblygu Francophonie economaidd fywiog yn rhyngwladol.

**66.** Mae ymagwedd Llywodraeth Québec tuag at gysylltiadau rhyngwladol yn nodi y bydd yn parhau i ddibynnu ar ei chylch haen gyntaf hanesyddol o bartneriaid yng Ngogledd America, Gorllewin Ewrop a'r Francophonie rhyngwladol.

**67.** Nododd Québec nifer o ffyrdd hefyd y mae'n cydweithredu â Chymru mewn meysydd fel awyrofod a gwyddorau bywyd. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys y cytundeb cydweithredu a lofnodwyd rhwng Aéro Montreal ac Awyrofod Cymru yn 2018. Awgrymwyd bod lle i gydweithredu ymhellach rhwng Cymru a Québec mewn meysydd megis gwyddoniaeth, arloesedd a diwylliant yn y dyfodol.[53]

**68.** Dywedodd Dr Christopher Huggins wrthym, ers y 1990au, y bu newid tuag at fwy o rwydweithio amlochrog. Aeth ymlaen i ddweud:

> "Whether there should be more of an emphasis on bilateral networking again is more of a political decision as to whether building those relationships with individual regions is more important than having the wider EU presence within these networks."[54]

**69.** Mewn sesiwn tystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai'n hoffi gweld y perthnasau dwyochrog hyn yn parhau yn y dyfodol ond y gallai fod angen gwneud mwy o waith o ran blaenoriaethu'r perthnasau hyn.[55]

## 3. 14. Ein barn ni

Rydym yn nodi, yn ogystal â'r perthnasau a'r rhwydweithiau amlochrog a amlygwyd uchod, bydd perthnasau dwyochrog hefyd yn chwarae rhan yng

---

[51] Llywodraeth Gwlad y Basg, Diweddariad ar strategaeth fframwaith rhyngwladoli 2020

[52] Llywodraeth Québec, Québec: On the world stage: Involved, engaged, thriving

[53] Adroddiad rapporteur

[54] Cofnod y Trafodion, paragraff 30 – 16 Gorffennaf 2018

[55] Cofnod y Trafodion, paragraff 53 – 21 Ionawr 2019

ngwaith ymgysylltu allanol Cymru yn y dyfodol. At hynny, mae’n bosibl y bydd ymadawiad y DU o’r UE yn golygu bod gan Gymru lai o gyfleoedd i gymryd rhan yn ffurfiol mewn rhwydweithiau amlochrog.

Rydym yn nodi bod y rhan fwyaf o wledydd ac actorion is-wladwriaeth sy’n gweithredu’n llwyddiannus ar y llwyfan rhyngwladol wedi rhoi blaenoriaeth glir i berthnasau dwyochrog yn seiliedig ar fuddiannau cyffredin. Roedd ymagweddau strategol Gwlad y Basg a Québec yn nodi’r rhesymeg dros flaenoriaethu perthnasau o’r fath, a gallant fod yn enghraifft i Lywodraeth Cymru ddysgu ohoni.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu’r perthnasau dwyochrog sydd ganddi ar hyn o bryd er mwyn asesu pa rai o’r perthnasau hyn y gellir eu cryfhau a’u dyfnhau yn y dyfodol, yn unol â blaenoriaethau strategol Cymru.



BBC Cymru bresennol yn y sesquicentennial y Wladfa Gymreig yn Chubut, Patagonia, yr Ariannin



# Pennod 4:

# Cymru a’r Cymry dramor

Mae’r bennod olaf hon yn edrych ar faterion megis sut i ymgysylltu â’r Cymry alltud, rôl swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru a’r cysyniad o ‘Bŵer Meddal’.

# 4. Cymru a'r Cymry dramor

Mae'r bennod olaf hon yn edrych ar faterion megis sut i ymgysylltu â Chymry alltud, rôl swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru a'r cysyniad o "Bŵer Tawel".

## 4. 1. Y Cymry alltud

**70.** Awgrymodd nifer o dystion y gellid gwneud mwy o ddefnydd o'r Cymry alltud - pobl o dras Gymreig a/neu wladolion Cymru sydd wedi symud i fyw i wlad arall. Er nad oes ffigurau pendant yn bodoli ynghylch nifer y Cymry sy'n byw dramor, awgrymodd astudiaeth yn 2006, a oedd yn dadansoddi daearyddiaeth cyfenwau Cymraeg, fod gan gymaint ag 11 miliwn o bobl linach Gymreig yn yr Unol Daleithiau yn unig.[56]

**71.** Awgrymodd yr Athro Jo Hunt, fel rhan o'n gwaith Cymru yn y Byd, y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Cymry alltud yn well.[57] Tynnwyd sylw at Weriniaeth Iwerddon a'r Alban fel enghreifftiau lle mae Llywodraethau'n mynd ati i ddefnyddio pŵer eu pobl ar wasgar ac mae ganddynt weinidog llywodraeth sy'n gyfrifol am ddatblygu symudiadau pobl ar wasgar yn rhyngwladol.[58]

**72.** Dywedodd Walter May, sylfaenydd GlobalWelsh, wrthym am ei uchelgais ynghylch ymgysylltu â phobl ar wasgar. Dywedodd Mr May:

> "We know that our most valuable export is not goods or services, it's talent; we haemorrhage talent every year. Most people who leave Wales don't come back. They seek opportunities and their Welsh success is much greater than the success we have within the borders of Wales. So, we are very much focused on the individual. We are indifferent as to where they're located. So, we are reaching out to the 3 million friends of Wales. Many of them still have an emotional attachment to this country and a propensity to want to help. So, it's London, yes; it could be anywhere in the world. So, we want to tap into those people's propensity to want to contribute back to Wales."[59]

[56] Webber, Richard "The Welsh diaspora : Analysis of the geography of Welsh names" 2006 – gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

[57] Crynodeb rapporteur – Cymru yn y Byd

[58] Ibid.

[59] Cofnod y Trafodion, paragraff 39 – 1 Hydref 2018

**73.** Cyfeiriodd Walter May at ymdrechion Seland Newydd o ran ymgysylltu â phobl ar wasgar fel rhai o'r ymdrechion gorau yn y byd. Tynnodd Mr May sylw at y rôl ragweithiol y mae Llywodraeth Seland Newydd yn ei chwarae wrth ymgysylltu â phobl o Seland Newydd dramor, gan gynnwys drwy ddigwyddiad blynyddol a gynhelir gan y Prif Weinidog.[60]

**74.** Dywedodd Auriol Miller wrthym y gall pobl ar wasgar fod yn hollbwysig o ran symud adnoddau a sylw yn rhyngwladol a bod diddordeb mewn ymgysylltu llawer mwy, a bod diddordeb mewn gwybod y sianeli ar gyfer gwneud hynny yn y ffordd fwyaf priodol.[61]

**75.** Tynnodd Walter May sylw hefyd at yr angen i fesur yr effaith o ran ymgysylltu â phobl ar wasgar. Dywedodd Mr May:

> "The other thing: diaspora engagement—how do you measure the impact? Well, in Scotland, they've got GlobalScot. It's been going for about 15, 20 years. They focus very much on international trade, and they had an impact study done and they measured an increase in GVA, a significant increase in GVA, as a result of GlobalScot. So, this isn't just, 'This is a fun thing to do'. It does have real economic benefits."[62]

**76.** Mewn sesiwn tystiolaeth lafar, cyfaddefodd y Gweinidog y gallai Llywodraeth Cymru wneud yn well o ran ymgysylltu â phobl ar wasgar.[63] Dywedodd:

> "I think there are different organisations playing in this area, and we need to make sure that we co-ordinate the work. We need a discussion as to whether we will be looking to support GlobalWelsh, which is the kind of private sector diaspora model, or whether we want to look at the way they do it in Scotland, which is basically Government-run. So, that's something I'd like to consider in the context of a new strategy: what's the best way to do that? But, again, the key thing for me is to find the movers and shakers who make things happen."[64]

---

[60] Cofnod y Trafodion, paragraff 100 – 1 Hydref 2018
[61] Cofnod y Trafodion, paragraff 137 – 1 Hydref 2018
[62] Cofnod y Trafodion, paragraff 101 – 1 Hydref 2018
[63] Cofnod y Trafodion, paragraff 83 – 21 Ionawr 2018
[64] Ibid.

# Astudiaeth achos – Seland Newydd



Sefydlwyd Kea (**www.keanewzealand.com**) yn 2002 fel menter ddi-elw annibynnol, ac mae'n anelu at helpu pobl Seland Newydd i gysylltu â phobl o Seland Newydd ledled y byd, a chael gwybodaeth a chysylltiadau ganddynt. Ar hyn o bryd caiff ei ariannu'n bennaf gan Lywodraeth Seland Newydd. Mae gan Kea gymuned fyd-eang o dros 500,000 o gyn-ddinasyddion a ffrindiau Seland Newydd. Mae ei gynnig yn cynnwys mentrau Kea Connect a World Class New Zealand, yn ogystal â chynnal digwyddiadau byd-eang.

Mae Kea Connect yn galluogi busnesau yn Seland Newydd i gysylltu â'i rwydwaith byd-eang o arbenigwyr diwydiant o wasgariad Seland Newydd i'w helpu i ymuno â marchnadoedd newydd. World Class New Zealand yw'r rhwydwaith byd-eang a ddefnyddir gan Kea i gyflawni hyn, ac mae'n gweithio i wella sefyllfa fyd-eang Seland Newydd. Mae dros 375 o 'World Class New Zealanders' sy'n ffurfio'r rhwydwaith hwn, a gallant ddarparu cyflwyniadau, mewnwelediadau ar farchnadoedd tramor, cyngor ar fynediad i'r farchnad, mentora a siaradwyr ar gyfer digwyddiadau. Mae hefyd yn cynnal gwobrau blynyddol World Class New Zealand, sy'n cydnabod arweinwyr Seland Newydd y mae eu cyraeddiadau'n hyrwyddo Seland Newydd yn rhyngwladol. Cynhelir y digwyddiad gan ei Brif Weinidog.

## Astudiaeth achos – yr Alban



Mae Scottish Enterprise, asiantaeth datblygu economaidd Llywodraeth yr Alban, yn ariannu ac yn cefnogi prif fenter gwasgariad yr Alban, GlobalScot. Sefydlwyd menter GlobalScot yn 2001 gan Scottish Enterprise. Mae'n rhwydwaith byd-eang o arweinwyr busnes sy'n darparu arbenigedd busnes i gynorthwyo entrepreneuriaid yr Alban. Gall y busnesau gael cyngor ar baratoi ar gyfer mynediad i farchnad newydd, dod o hyd i gwsmeriaid, a nodi partneriaid a chyflenwyr posibl. Mae dros 600 o GlobalScots yn darparu'r cymorth hwn, a gwneir dros 1,000 o gysylltiadau rhwng cwmnïau a GlobalScots bob blwyddyn.

Creodd GlobalScot y Saltire Foundation hefyd er mwyn helpu i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr busnes yn yr Alban. Yn 2014, cyfunodd â'r Entrepreneurial Exchange i ffurfio Entrepreneurial Scotland. Y Saltire Foundation yw braich elusennol Entrepreneurial Scotland erbyn hyn, ac mae'n codi arian i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr entrepreneuraidd yn yr Alban. Mae'n cefnogi arweinwyr potensial uchel yn ystod camau cynnar neu ganolig eu gyrfa drwy ei raglen Saltire Scholars sy'n paru israddedigion gyda mentrau byd-eang blaenllaw, a thrwy redeg ei rhaglen datblygu arweinyddiaeth weithredol, Saltire Fellowship.

## 4. 2. Ein barn ni

Rydym yn sicr y gallai ymgysylltu'n well â'r Cymry alltud fod yn allweddol i ddatgloi rhai o uchelgeisiau Cymru ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol ar ôl Brexit. Gwnaed rhywfaint o waith ar y dull gorau i ddatblygu hyn, a bydd angen i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniad ynghylch a fyddai dull a arweinir gan y sector preifat neu ddull y llywodraeth yn arwain at gyflawni ei nodau yn y ffordd orau.

Credwn hefyd y gallai edrych ar enghreifftiau o arferion gorau o bob cwr o'r byd helpu i lywio cynllun gweithredu newydd ar gyfer ymgysylltu â phobl ar wasgar yn rhyngwladol ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i edrych ar yr enghreifftiau hyn, gan gynnwys Seland Newydd yn ogystal â'r rhai sy'n agosach at gartref, megis yr Alban ac Iwerddon.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio cynllun gweithredu ar gyfer ymgysylltu â Chymry alltud. Dylai'r cynllun gweithredu hwn gynnwys manylion am ba wledydd fydd yn cael eu blaenoriaethu a sut y bydd y Llywodraeth yn ceisio cyflawni hyn.

## 4. 3. Swyddfeydd Cymru dramor

**77.** Yn ystod ein gwaith Cymru yn y Byd, rhoddwyd sylw i rwydwaith o swyddfeydd rhyngwladol Llywodraeth Cymru fel maes â llwyddiant cymysg. Cyfeiriodd Dr Hunt at waith ymchwil y Ffederasiwn Busnesau Bach o 2017, sy'n awgrymu yr ymddengys nad yw lleoliad swyddfeydd tramor yn cael effaith amlwg ar berfformiad allforio. Awgrymodd fod angen i'r swyddfeydd hyn gael eu gwau'n fwy effeithiol â strategaeth fasnach a buddsoddi, a chwestiynodd fethodoleg Llywodraeth Cymru i nodi lleoliad ei swyddfeydd rhyngwladol a'r amcanion y mae Llywodraeth Cymru yn eu gosod ar eu cyfer.[65]

**78.** Pwysleisiodd Dr Elin Royles yr angen i sicrhau bod swyddfeydd rhyngwladol Cymru wedi'u staffio'n briodol ac yn aml-swyddogaethol, er mwyn gweithredu fel "llysgenadaethau bach" i Gymru, yn hytrach na chael swyddogaeth economaidd yn unig.[66]

**79.** Dywedodd Syr Emyr Jones Parry wrthym y dylai Cymru hefyd wneud mwy i ategu gwaith Llywodraeth y DU, gan nodi y "dylai Cymru weithio allan beth y mae am ei gael ond y dylai hefyd fod yn darbwyllo Llywodraeth Prydain gyda'i

[65] Crynodeb rapporteur - Cymru yn y Byd

[66] Crynodeb rapporteur - Cymru yn y Byd

swyddfeydd yn y mannau hyn er mwyn helpu Cymru i gael beth y mae am ei gael, yn ogystal â'r hyn y gallwn ni ei wneud".[67]

**80.** Yn ei bapur, dywed y Gweinidog y bydd swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru o bosibl yn chwarae rhan bwysig yn ein hymagwedd tuag at faterion allanol a bod 2018 wedi gweld yr ehangiad mwyaf o rwydwaith Llywodraeth Cymru hyd yma, gyda swyddfeydd newydd yn agor ym Montreal, Berlin, Doha, Paris a Dusseldorf.[68]

## 4. 4. Ein barn ni

Rydym yn nodi'r ehangiad o swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru a'r ymdrechion i sicrhau bod Cymru yn gallu ennill ei phlwyf mewn marchnadoedd allweddol ar ôl Brexit.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu dadansoddiad llinell sylfaen annibynnol, er enghraifft gan Swyddfa Archwilio Cymru, o weithrediad swyddfeydd tramor y Llywodraeth. Yn dilyn hynny, dylid defnyddio'r llinellau sylfaen hyn i fesur y cynnydd a wnaed gan y swyddfeydd, yn unol â'r strategaeth ryngwladol sydd i ddod.

## 4. 5. "Global Britain" a'r berthynas â Llundain

**81.** Awgrymodd nifer o dystion y byddai unrhyw weithgareddau Cymru yn y dyfodol ym maes cysylltiadau rhyngwladol yn gweithio'n well pe baent yn ategu amcanion polisi tramor Llywodraeth y DU.

**82.** Tynnodd Dr Rachel Minto sylw at yr angen i Gymru fod yn glir ynghylch sut y mae ei gwaith yng nghyd-destun ymgysylltiad rhyngwladol yn rhan o gyd-destun gwaith "Global Britain" y DU. Dywedodd Dr Minto wrthym fod rhesymeg glir i Gymru flaenoriaethu'r gwledydd a'r perthnasau y mae'r DU hefyd yn eu blaenoriaethu.[69]

**83.** Dywedodd Syr Emyr Jones Parry wrthym fod angen i Gymru feddwl am sut y mae'n dylanwadu ar y llywodraeth yn Llundain:

> "In terms of our future external representation, for me, the crucial one is with London—it's persuading London that devolution exists, that Wales has interests and getting the British Government to co-operate with the

[67] Cofnod y Trafodion, paragraff 31 – 1 Hydref 2018
[68] Sesiwn dystiolaeth, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
[69] Cofnod y Trafodion, paragraff 14, 16 Gorffennaf 2018

devolved administrations where it should and has to, but also, in what it does externally, that it represents the interests of Wales as much as it does for other parts of the kingdom. That impact of Wales on policy is crucial."[70]

**84.** Awgrymodd Dr Einion Dafydd a Dr Elin Royles fod y Swyddfa Dramor a Chymanwlad wedi bod yn eithaf parod ei chymwynas yn hanesyddol wrth ganiatáu i Lywodraeth Cymru ddilyn ei hamcanion rhyngwladol.[71] At hynny, roedd y ddau'n nodi bod y sefyllfa bresennol wedi'i hadeiladu ar berthnasau cydweithredol yn aml, gyda Chymru yn gweithio gyda gwladwriaeth y DU neu drwyddi i ddilyn ei buddiannau.[72]

**85.** Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, rhoddodd Dr Jo Hunt a Dr Rachel Minto grynodeb o ddull Cymru fel "Good European" a "Good Unionist".[73] Fodd bynnag, roedd Dr Royles yn cwestiynu ai hwn yw'r dull mwyaf llwyddiannus bob amser, gan nodi mai'n anaml iawn y mae buddiannau Cymru yn uchel ar agenda Llywodraeth y DU.[74]

**86.** Un o negeseuon allweddol ein hymweliad rapporteur â Llundain oedd yr angen i Gymru (a Llywodraeth Cymru) gael eglurhad a sicrwydd gan Lywodraeth y DU ynghylch cwmpas ac ehangder ei phwerau i weithredu yn y maes rhyngwladol ar ôl Brexit.[75]

**87.** Yn ein cyfarfod â'r Swistir, nodwyd bod ymagwedd ffederal tuag at lywodraeth ranbarthol. Mae cysylltiadau tramor yn bŵer ffederal, ac eithrio bod y cantonau yn gallu ymgymryd â chytundebau is-genedlaethol â chyrff is-genedlaethol mewn meysydd sydd o fewn cwmpas eu pwerau. Gelwir hyn yn "bolisi tramor bach".[76] Mae cantonau yn y Swistir hefyd yn gallu cymryd rhan mewn penderfyniadau polisi tramor, ac ymgynghorir â hwy ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu pwerau neu eu cymwyseddau. At hynny, ymgynghorir â chantonau ar fandadau negodi lle mae pwerau o dan eu hamcanion yn y fantol. Mae Cynhadledd y Llywodraethau Cantonol, corff cynrychioliadol 26 o gantonau'r

[70] Cofnod y Trafodion, paragraff 19 – 1 Hydref 2018
[71] Crynodeb rapporteur – Cymru yn y Byd
[72] Ibid.
[73] Ibid.
[74] Ibid.
[75] Adroddiad rapporteur
[76] Ibid.

Swistir, hefyd yn cwrdd â llywodraeth ffederal y Swistir bob deufis i drafod cyflwr y cysylltiadau ar faterion dwyochrog rhwng y Swistir a'r UE.[77]

**88.** Mewn sesiwn tystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn awyddus i weld Llywodraeth y DU yn gwneud mwy i Gymru, o ran ymgysylltiad rhyngwladol.[78] Dywedodd:

> "If you just look at the relationship with the UK Government. I'm already in the process of arranging meetings with the Foreign and Commonwealth Office, just to explore how much further we can push them, for example. So, I would never foresee us as a Welsh nation opening an office, even within the FCO, in Peru for example, but I do want the embassy in Peru to be waving the flag for Wales at least once a year; I want them to do an event once a year. So, I want to know if that's happening at the moment—if not, what can we do to support that. So, I think there are some clear key performance indicators that we could be asking of the UK Government, and that's the kind of thing that I'm trying to develop now. If you look at the Department for International Development, we spend 0.7 per cent of our gross domestic product on that. There are lots of contracts that are available for British companies to go and install water purification or build roads in parts of Africa. There's no reason why we couldn't be trying to land some of those and to help Welsh companies to land some of those investments as well."[79]

## 4. 6. Ein barn ni

Rydym yn cydnabod bod nifer o ffyrdd posibl i Gymru gael mwy o ddylanwad, yn unol â blaenoriaethau Cymru, o ran ymgysylltiad rhyngwladol. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod adrannau perthnasol y DU yn cymryd mwy o ystyriaeth o flaenoriaethau Cymru mewn perthynas â'u gwaith rhyngwladol.

Rydym yn cefnogi uchelgeisiau'r Gweinidog o ran cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o flaenoriaethau Cymru yn adrannau Whitehall sydd â ffocws allanol.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn:

---

[77] Ibid.

[78] Cofnod y Trafodion, paragraff 11 – 21 Ionawr 2019

[79] Cofnod y Trafodion, paragraff 28 – 21 Ionawr 2019

- y camau y mae'n eu cymryd i gryfhau ei phresenoldeb a'i dylanwad yn Llundain;
- asesiad o ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar waith i wella ymwybyddiaeth a mynediad at adrannau Whitehall i wneud y mwyaf o'i dylanwad.

Rydym wedi tynnu sylw yn flaenorol at yr angen am fecanweithiau rhynglywodraethol mwy ffurfiol o fewn y DU fel ffordd o drafod polisi, cytuno ar safbwyntiau a rennir a datrys unrhyw wrthdaro posibl. Rydym yn cytuno y byddai mecanwaith o'r fath yn ddefnyddiol ym maes ymgysylltiad rhyngwladol. Byddwn yn trafod rhai o'r materion hyn yn fanylach fel rhan o'n gwaith sydd i ddod ar fasnach a chytundebau rhyngwladol.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn annog Llywodraeth y DU i gyhoeddi'r adolygiad o fecanweithiau rhynglywodraethol a gomisiynwyd gan y Gydbwyllgor Gweinidogion (Cyfarfod Llawn) ym mis Mawrth 2018, cyn gynted ag y bo modd.

## 4. 7. Pŵer Tawel

**89.** Dywedodd Auriol Miller wrthym, er bod mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fuddiannau Cymru yn Llundain yn bwysig, dylai Cymru rybuddio yn erbyn 'eistedd yn Llundain a disgwyl i'r byd ddod i ni'. Dywedodd Ms Miller:

> "the other angle of soft power is around communicating a nation's ideals, beliefs and values, political heritage and culture. And an opportunity for that, and the common understanding of relationships across borders, is very much through education, tourism, exchange programmes and business partnerships[…]."[80]

**90.** Amlygodd Auriol Miller waith y British Council ar bŵer tawel, gan nodi:

> "The things that came through in terms of the soft power index that the British Council did in April were our digital expertise, our entrepreneurialism, and sport as a clear priority.
>
> The other thing that came through from conversations with our members was around our focus on sustainability as a country, and our engagements in networks around sustainability. So, what is it that we are doing that is world leading and how can we make the most of that,

[80] Cofnod y Trafodion, paragraff 35 – 1 Hydref 2018

> and use that as a way to pull in expertise and attention, and in all sort of different areas? So, I think those are the angles for us."[81]

**91.** Cytunodd Syr Emyr Jones Parry y byddai angen i Gymru fod yn "greadigol" er mwyn gwneud y gorau o fanteision pŵer tawel, gan ychwanegu bod chwaraeon yn un maes bosibl i Gymru fanteisio arno.[82]

**92.** Amlygodd yr Athro Michael Keating a Dr Einion Dafydd bwysigrwydd Cymru yn diffinio neu'n datblygu ei 'phwynt gwerthu unigryw' neu ei 'maes arbenigol' a dadleuwyd bod datblygu arbenigedd mewn maes yn rhoi hwb i gydnabyddiaeth ryngwladol mewn marchnad lawn.[83] Dadleuwyd bod datblygu arbenigedd mewn maes yn hybu cydnabyddiaeth ryngwladol ac y byddai datblygu arbenigedd cenedlaethol Cymru yn arwain at wledydd eraill yn ceisio ymgysylltu â Chymru. Amlygwyd Llywodraeth y Alban yn hyrwyddo ei harbenigedd ynni ar y môr, y Ffindir yn hyrwyddo dinasoedd smart ac arbenigedd yr Iseldiroedd mewn uwch-amaethyddiaeth fel enghreifftiau o arfer da.[84]

**93.** I'r un perwyl, tynnodd Syr Emyr Jones Parry sylw at broffil economi Cymru, ochr yn ochr â diwylliant ac iaith Cymru fel meysydd lle mae Cymru yn wahanol i weddill y Deyrnas Unedig.[85]

**94.** Tynnwyd sylw at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd fel enghraifft bosibl.[86]

**95.** Mewn sesiwn tystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai'n ceisio ffyrdd o wneud y gorau o bŵer tawel Cymru yn y dyfodol. Dywedodd:

> "I think that soft power is essential. I think you can go a very long way with it. I think individuals matter when it comes to soft power. I think that one of the things I'd like to do is to engage with the British Council, with the BBC World Service, with those British organisations again where we can try and exert more influence and try and get them to tell our story a bit more for us."[87]

[81] Cofnod y Trafodion, paragraffau 69-70 – 1 Hydref 2018

[82] Cofnod y Trafodion, paragraffau 62-65 – 1 Hydref 2018

[83] Crynodeb rapporteur – Cymru yn y Byd

[84] Ibid.

[85] Cofnod y Trafodion, paragraffau 93 i 95 – 1 Hydref 2018

[86] Cofnod y Trafodion, paragraff 106 – 1 Hydref 2018

[87] Cofnod y Trafodion, paragraff 80 – 21 Ionawr 2019

## 4. 8. Ein barn ni

Credwn y gellid gwneud mwy i wneud y gorau o botensial pŵer tawel Cymru, yn enwedig o ran asedau penodol Cymru - megis yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

Cytunwn y dylai’r Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol geisio cefnogaeth sefydliadau megis y British Council a’r BBC, ochr yn ochr â sefydliadau Cymru, i ddatblygu’r nodau hyn.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod y strategaeth ymgysylltiad rhyngwladol newydd yn nodi meysydd o bŵer tawel lle gall Cymru arddangos arweinyddiaeth ryngwladol.

Byddwn yn adolygu’r sefyllfa hon, gan gynnwys manylion am sut y mae’r Gweinidog yn ymgysylltu â sefydliadau â ffocws allanol wrth hyrwyddo Cymru i’r byd, pan gyhoeddir y strategaeth ymgysylltiad rhyngwladol newydd.